# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 2 Ebrill 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 201(v4)

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (mewn perthynas â'i gyfrifoldebau fel swyddog cyfreithiol)

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 4 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit: Y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Brexit

(45 munud)

### 5 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Diogelwch Adeiladau

(45 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Ymgyrch Hyfforddi, Gweithio, Byw

(45 munud)

## 7 Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Darpariaethau Atodol) 2019

(15 munud)

**NDM7025** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Darpariaethau Atodol) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mawrth 2019.

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Ymateb y Llywodraeth

## 8 Rheoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol) (Penderfynu ar Drosiant) 2019

(15 munud)

**NDM7026** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol) (Penderfynu ar Drosiant) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mawrth 2019.

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Ymateb y Llywodraeth

## 9 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Deddfwriaeth (Cymru)

(60 munud)

**NDM7023** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Deddfwriaeth (Cymru).

Gosodwyd y Bil Deddfwriaeth (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 3 Rhagfyr 2018.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil Deddfwriaeth (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 26 Mawrth 2019.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 10 Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Deddfwriaeth (Cymru)

(5 munud)

**NDM7024** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy’n deillio o’r Bil Deddfwriaeth (Cymru) yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o’r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy’n codi o ganlyniad i’r Bil.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 3 Ebrill 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28/03/2019 i'w hateb ar 02/04/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**1** OAQ53729

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gladdu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

**2** OAQ53741

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafnidiaeth integredig o fewn Gorllewin De Cymru?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**3** OAQ53719

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael i gryfhau atebolrwydd prifysgolion?

**Leanne Wood** *Rhondda*

**4** OAQ53737

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**5** OAQ53716

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau'r GIG yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

**6** OAQ53743

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

7 OAQ53735

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ymdrin â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

8 OAQ53702

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae'r cod gweinidogol yn rheoli mynediad at Weinidogion Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

9 OAQ53706

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

10 OAQ53739

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion i gynyddu argaeledd hyfforddiant galwedigaethol a'r nifer sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant hwnnw?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

11 OAQ53703

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am helpu busnesau lleol i ennill mwy o gontractau caffael cyhoeddus?

**David Melding** *Canol De Cymru*

12 OAQ53720

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o werth y diwydiant e-chwaraeon yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

13 OAQ53725

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynaliadwyedd practisau meddygon teulu yng nghanolbarth Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

14 OAQ53738

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog cadwyni cyflenwi lleol cryf drwy'r system gynllunio?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

15 OAQ53742

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o werth twristiaeth i economi Islwyn?

# Cwnsler Cyffredinol

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

1 OAQ53692

**(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ar gydgyfnerthu'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn ymgorffori hawliau dinasyddion Cymru i herio penderfyniadau amgylcheddol ar ôl Brexit?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

2 OAQ53693

**(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ar ffyrdd o wella'r modd y diogelir hawliau dynol ar gyfer dinasyddion yng Nghymru ar ôl Brexit?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

3 OAQ53708

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynghylch a oes gan y Cynulliad bwerau deddfu mewn perthynas â newid y llw teyrngarwch?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

4 OAQ53700

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am waith adran gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OAQ53699

**(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i'r Gweinidog Addysg o ran y camau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i wella'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008?